

Annwyl Glerc

Gofynnir ichi ddwyn y llythyr hwn at sylw eich Cadeirydd a'ch Cyngorwyr

Aelodaeth Un Llais Cymru 2023-24

Ysgrifennaf atoch i wahodd eich cyngor i adnewyddu ei aelodaeth i ymuno ag Un Llais Cymru o fis Ebrill 2023. Unwaith eto, gwelwyd nifer o ddatblygiadau cadarnhaol yn ein gwasanaethau ac i'r sector cyngorau cymuned a thref yn gyffredinol dros y flwyddyn ddiwethaf, ac amlinellir llawer ohonynt yn y llythyr hwn, a chredwn eu bod yn ychwanegu'n arwyddocaol at y gwerth am arian y mae aelodaeth Un Llais Cymru yn ei gynnig.

Rydym yn parhau i gynrychioli'r sector mewn nifer fawr o ffyrdd gwahanol – cawn gyfarfodydd rheolaidd gyda'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol Rebecca Evans AoS ac rydym yn parhau i gynrychioli'r sector ar y **Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol**. Yn ystod 2022-23 rydym unwaith eto wedi cyflwyno sylwadau cryfion ar y rôl y gall y sector ei chwarae yn cefnogi gwasanaethau lleol cynaliadwy a chefnogi'r agenda Diwygio Llywodraeth Leol ymhlith eraill. Rydym wedi cynnal a datblygu ymhellach ein perthynas waith gyda Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) ac WCVA gan gryfhau llais y sector o fewn teulu'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a gwella'r berthynas waith gyda'r Trydydd Sector.

Mae Un Llais Cymru yn parhau i wneud cyfraniadau o bwys i ddatblygiadau polisi cyhoeddus trwy ein cynrychiolaeth ar nifer o baneli ymgynghorol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y **Panel Newid Hinsawdd, Gweithgor Ystadau Cymru, Grŵp Ymgynghorol y Gweinidog ar Weithredu ar Drefi, Panel Ymgynghorol Llywodraeth Cymru ar Sbwriel, Fforwm Ymgynghorol y Gweinidog ar Heneiddio, Gweithgor Amrywiaeth mewn Democratiaeth Llywodraeth Cymru, Grŵp Llywio Oed Weddus y Comisiynydd Pobl Hŷn, Bwrdd Ymgynghorol Llywodraeth Cymru ar Gymunedau Gweithgar yn ogystal â'r Bwrdd Ymgynghorol ar Ddeall Lleoedd yng Nghymru**. Mae Un Llais Cymru yn chwarae rôl gynyddol yn datblygu adnoddau ar gyfer y sector, er enghraifft trwy ein **Swyddog Lleoedd Lleol ar gyfer Natur** yn ein tîm sydd wedi helpu cannoedd o gynghorau hyd yn hyn ar brosiectau a materion amgylcheddol; ac wedi cael arian gan lechyd Cyhoeddus Cymru trwy dîm Achub Bywyd Cymru rydym wedi gallu sefydlu swydd **Rheolwr CPR a Diffibrilwyr Cymunedol** yn ein tîm sydd wedi helpu cannoedd o gynghorau cymuned a thref yn 2022-23 i ddatblygu'r agenda hollbwysig hwn. Rydym hefyd wedi chwarae rôl arwyddocaol gyda Llywodraeth Cymru a chydweithwyr yn yr SLCC i ddatblygu **Pecyn Cyllid a Llywodraethiant** ar gyfer y sector fydd yn helpu gwella safonau arferion gwaith. Rydym yn parhau i weithio'n agos â nifer o gyrff eraill gan gynnwys **Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru, y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddfa Archwilio Cymru**. Gwelir felly fod ein gallu i ddylanwadu ar sefydliadau budd-ddeiliadol allweddol yn parhau i dyfu o flwyddyn i flwyddyn.

Mae dyfodol cyffrous a heriol yn wynebu Cyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru a byddwn yn parhau i ddatblygu ein rolau lobio a chynrychioli, yn enwedig felly o ran deilliannau **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)**. Yn ystod 2022-23

Llais Cyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru - The Voice of Community and Town Councils in Wales

Ebost/Email: tjilmartin@onevoicewales.wales

Gwefan/Website: www.unllaiscymru.org.uk / www.onevoicewales.org.uk

buom yn datblygu **canllawiau ar ddatblygu Cynlluniau Hyfforddiant, canllawiau ar Fwlio ac Aflonyddu** yn ogystal â chefnogi Llywodraeth Cymru i gyflwyno canllawiau a chyngor i gynghorau ar ofynion **dyletswyddau Adran 6 Deddf yr Amgylchedd**. Byddwn yn parhau i ddatblygu canllawiau ymarfer a rhannu astudiaethau enghreifftiol arfer gorau yn 2023-24.

Golyga ein rôl gynrychioliadol **fod gennym gyswllt uniongyrchol nid yn unig gyda'r Gweinidog dros Gyllid a Llywodraeth Leol ond hefyd gyda nifer o Weinidogion eraill** y mae cylch gorchwyl ein sector yn berthnasol iddynt. Yn ystod 2022-23 cyflwynasom sylwadau i'r **Gweinidog dros Newid Hinsawdd** ar nifer o faterion - ar yr angen am fwy o adnoddau i'r sector, yr angen i ddatblygu sgiliau a gallueddau digidol, y rôl y gall cynghorau cymuned a thref ei chwarae yn adfer canol trefi a chynllunio cymunedol, sut all y sector gefnogi'r agenda datgarboneiddio, datganoli gwasanaethau a'r agenda trosglwyddo asedau a chefnogaeth i'r sector i gyfrannu'n fwy effeithiol i'r agenda seilwaith gwyrdd. Yn ystod 2022-23 rydym wedi cynyddu ein **rôl gynrychioliadol** - trwy Un Llais Cymru mae llawer o gynghorwyr ledled Cymru wedi dod yn fwyfwy abl i leisio eu barn ar nifer fawr o feysydd polisi i gefnogi ein gweithgareddau lobio a **dylanwadu ar lywodraeth a mudiadau budd-ddeiliaid** wrth iddynt wneud eu penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys cynrychiolaeth ar fforymau budd-ddeiliaid yr ymddiriedolaethau iechedd a nifer o **Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**. Mae'r datblygiadau hyn wedi gwella a datblygu ymhellach ein gwaith cynrychioli a lobio y byddwn yn gobeithio ei ddatblygu ymhellach yn 2023-24.

Mae rhai o'n cyflawniadau eraill dros y 12 mis diwethaf yn cynnwys:

- Cafwyd cynnydd iach yn nifer yr aelodau yn ystod y flwyddyn. Mae dros 89% o'r holl gynghorau (88% y flwyddyn gynt) yn aelodau o Un Llais Cymru, neu 653 o'r 732 cyngor yng Nghymru (639 y flwyddyn gynt), sef y lefel aelodaeth uchaf ers ffurfio Un Llais Cymru. Mae cynlluniau ar waith yn barod i ddenu rhagor o aelodau yn 2023-24.
- Trwy ein swydd Swyddog Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Newydd, rydym wedi galluogi cynghorau cymuned a thref ledled Cymru i fanteisio ar fwy na £1m o gefnogaeth ariannol ac mae prosiectau gwerth £500,000 arall yn cael eu paratoi ar gyfer 2023/24.
- Cawsom gadarnhad gan Lywodraeth Cymru y cawn 3 blynedd o gyllid ychwanegol o £150,000 y flwyddyn i ddatblygu adnoddau i gefnogi cynghorau cymuned a thref i helpu eu cymunedau gyda'r argyfwng costau byw.

Fel y gwyr aelodau cyfredol, rydym yn darparu'r gwasanaethau canlynol a amlinellir isod, a gwyddom o adborth gan ein haelodau fod pob agwedd ar y gwasanaeth yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr.

- **Darparu cyngor cyfreithiol rhad ac am ddim** gan dîm o gyfreithwyr profiadol, all arbed cryn dipyn o amser a chost i aelodau o gymharu â defnyddio cyfreithwyr lleol i gael cyngor. (Yn aml iawn mae'r arbedion hynny'n gallu bod yn fwy na chost tâl aelodaeth).
- **Cyngor a chefnogaeth brydlon ac o ansawdd** ar faterion sydd o bwys i aelod cynghorau.
- **Hyfforddiant** i aelodau a staff, gan gynnwys seminarau polisi a chyfleoedd gwaith newydd.
- **Gwybodaeth gyffredinol trwy ein gwefan, gan gynnwys llecyn aelodau**
- Rhifynnau **misol** o'n 'E-Gylchlythyr' newydd.
- **Cynrychioli'r** sector ar Gyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol.

- Creu **cyfleoedd newydd i gydweithio** gyda mudiadau cenedlaethol ledled Cymru.

Mae'r agenda hyfforddiant a datblygu yn faes arall lle y gwelwyd cryn ddatblygu yn ystod 2022/23, wrth inni barhau i gyflwyno rhaglen lwyddiannus o hyfforddiant trwy weminarau. O dan adain y **Grŵp Ymgynghorol Cenedlaethol ar Hyfforddiant**, a gadeirir gan Un Llais Cymru, rydym wedi parhau i fireinio a datblygu ac ehangu ein rhaglen hyfforddiant ar gyfer y sector cynghorau cymuned a thref. Unwaith eto, rydym wedi ehangu a datblygu ein rhaglen hyfforddiant a bydd ar gael i aelodau trwy gydol y flwyddyn. Adeg llunio'r llythyr hwn, rydym ar fin dosbarthu **Arolwg Anghenion Hyfforddiant** i aelod gynghorau, ac yn ystod 2023-24 bwriadwn gryfhau ein gwasanaethau i aelodau ymhellach. Hyd yn hyn rydym wedi darparu tua 3,000 uned o hyfforddiant i'r sector - ac mae'n galonogol gweld cynghorau yn mynd ati o ddifrif i ddatblygu eu sgiliau a'u galluoedd wrth i rôl y sector ddod yn fwyfwy pwysig.

Mae ein **Gwasanaethau Ymgynghoriaeth** wedi bod yn tyfu'n gyflym, ac mae llawer o gynghorau yn manteisio ar y gwasanaeth hwn. Rydym fwy a mwy yn gallu darparu atebion 'Canolfan Un Alwad' ar gyfer ein haelodau ac rydym wedi cefnogi ein cynghorau ar **ymarferiadau cynllunio cymunedol, gwasanaethau cyfrifeg, cyngor technegol ar TAW, adnoddau dynol a materion personél**, gan gynnwys **cynrychiolaeth mewn Tribiwnlysoedd Diwydiannol**, cynorthwyo i **ddatblygu polisi ac iechyd a diogelwch** - ac am **gostau sy'n sylweddol is na phris y farchnad**. Rydym hefyd erbyn hyn yn gallu cynnig cymorth ymgynghorol ym meysydd cynllunio cymunedol ac ymgysylltu â'r gymuned. Mae croeso ichi gysylltu â Swyddfa Rhydaman os hoffech gael mwy o fanylion am sut allwn eich cefnogi trwy'r gwasanaethau hyn.

Mae'n bwysig nodi fod ein rôl yn gorff cynrychioliadol wedi gwella'n sylweddol a gwelsom dwf sylweddol yn ein haelodaeth yn ystod 2022-23 – ar ddiwedd y flwyddyn roedd gennyf 653 o aelod gynghorau lleol, neu 89% o'r holl gynghorau cymuned a thref.

Gobeithiaf fod y crynodeb hwn o ddatblygiadau ar hyn o bryd ac i'r dyfodol wedi dangos fod Un Llais Cymru yn parhau i wneud popeth o fewn ei allu i gynrychioli'r sector ac i ddarparu gwasanaeth gwybodaeth a chefnogaeth o safon uchel i'n haelodau.

Er mwyn i'ch cyngor gael llais yn nyfodol y sector llywodraeth leol hollbwysig hwn, ac er mwyn elwa o'r gefnogaeth y mae Un Llais Cymru yn ei darparu, gofynnir ichi lenwi a danfon y Ffurflen Aelodaeth atodedig trwy e-bost neu i'n swyddfa yn Rhydaman - mae'r cyfeiriad ar ddechrau'r llythyr hwn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am aelodaeth, cofiwch fod croeso ichi gysylltu â'r swyddfa ar 01269 595400 / 07917 846510 neu e-bostio: tjilmartin@unllaiscymru.cymru

Hyderaf y bydd eich Cyngor yn rhoi ystyriaeth lawn i'r gwahoddiad hwn a gobeithiaf allu eich croesawu yn aelod cyn bo hir. Edrychaf ymlaen at weithio gyda'ch cyngor yn 2023-24.

Yours sincerely,



Lyn Cadwallader
Prif Weithredwr